

HUGHES, (ROBERTS), MARGARET ('Leila Megàne', 1891-1960), cantores

Enw: Margaret Hughes
Ffugenw: Leila Megàne
Dyddiad geni: 1891
Dyddiad marw: 1960
Priod: William John Hughes
Priod: Thomas Osborne Roberts
Rhiant: Jane Phillip Jones (née Owen)
Rhiant: Thomas Jones
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: cantores
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Huw Williams

Ganwyd Bethesda, Caernarfon, 5 Ebrill 1891, yn un o ddeg plentyn Thomas Jones, aelod o heddlu Arfon, a Jane Phillip (ganwyd Owen) ei wraig. Symudodd y teulu i Bwllheli yn 1894, ac yno y magwyd y gantores. Collodd ei mam pan oedd yn 7 oed, ac aberthodd ei thad lawer er mwyn rhoi addysg gerddorol iddi. Astudiodd ganu am gyfnod gyda John Williams, arweinydd Cymdeithas Gorawl Caernarfon, a'r unawd gyntaf iddi ei chanu'n gyhoeddus oedd ' Gwlad y delyn ' ([John Henry](#)) yn 1907. Yn fuan ar ôl hynny derbyniodd ei hymrwymiad cyntaf i ganu mewn cyngerdd yn Aber-soch, a chael cydnabyddiaeth o bymtheg swllt. Un o'r rhai a'i clywodd yn canu yn y cyngerdd hwnnw oedd [Harry Evans](#), a broffwydodd y deuai'n gantores enwog os câi ei hanfon i astudio canu at athro cymwys.

Yn Eisteddfod Môn ym Miwmares yn 1910, cystadlodd am y tro cyntaf, a chael y wobwr yno am ganu ' Gwraig y pysgotwr ' (Eurgain), gyda [Thomas Price](#) (1857 - 1925) a [T. Osborne Roberts](#) yn beirniadu. Yn 1910 hefyd (gyda thros 50 yn cystadlu) enillodd ar yr unawd contralto agored yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn, a chael cryn ganmoliaeth gan [David Evans](#) y beirniad. Yn fuan ar ôl hynny fe'i dygwyd i sylw George Power (athro canu llwyddiannus yn Llundain) gan Mrs. Ernest Taylor, a'i clywsai'n canu yn Llanbedrog, ac aeth i astudio i'r Academi Gerdd Frenhinol. Yn Llundain (dan yr enw Megan Jones) daeth i amlygrwydd mewn cyngherddau baledi, a chafodd gynorthwy gan [David Lloyd George](#), ac eraill, i astudio ymhellach am chwe blynedd yn Paris gyda'r datganwr enwog Jean de Reszke, a fuasai'n ddisgybl i Cotagni yn Turin. Ar ôl mabwysiadu'r enw Leila Megàne (ar awgrym de Reszke) derbyniodd ei hymrwymiad proffesiynol cyntaf, sef cytundeb dwy fl. i ganu Massenet yn yr Opera Comique, Paris. (Y mae'r wisg y canai ynddi yn opera Paris yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.) Yr oedd yn Ffrainc ar ddechrau Rhyfel Byd I, a threuliodd gyfnod yn difyrnu milwyr clwyfedig, a thynnu sylw gwleidyddion amlwg, yn eu plith yr Arglwydd Balfour, Bonar Law a Winston Churchill.

Yn dilyn ysbeidiau o ganu mewn gwahanol dai opera yn Ffrainc ac ym Monte Carlo, derbyniodd yn 1919 ymrwymiad pum mlynedd i ganu yn Covent Garden, lle y gwnaeth ei hymddangosiad cyntaf yn *Therese* (Massenet) ym mis Mai y flwyddyn honno, gyda [Lloyd George](#) a Melba, y gantores enwog, yn y gynulleidfa yn gwrandao arni. Yn 1920, canodd am y tro cyntaf yn un o gyngherddau'r Aeolian Hall, ac am wyth mlynedd bu'n canu'n rheolaidd yn y Queen's Hall dan gyfarwyddyd Henry Wood. Ar ôl taith lwyddiannus yn Ewrop, a chanu yn La Scala Milan, ac ym Moscow, derbyniodd yn 1923 wahoddiad i ganu yn y Metropolitan Opera House, Efrog Newydd. Priododd (1) yn Efrog Newydd, 21 Mawrth 1924, â [T. Osborne Roberts](#) a fuasai'n cyfeilio iddi mewn cyngherddau gartref ac mewn gwledydd tramor, ac yn ddiweddarach gwnaeth y ddau eu cartref ym Mhentrefoelas. Bu'n gyfrifol am boblogeiddio amryw o ganeuon a ysgrifennodd ei phriod, yn eu plith 'Y Nefoedd', 'Cymru annwyl' a 'Pistyll y llan'. Cefnodd ar ganu cyhoeddus yn 1939.

Yr oedd yn berchen llais contralto aeddfed a chyfoethog, gyda llawer o gynhesrwydd yn nodweddu ei datganu. Ymhlith yr eitemau a recordiodd rhwng tuag 1920 ac 1925 y mae detholion o opera Ffrengig (yn cael eu canu yn Ffrangeg), gweithiau gan Handel, caneuon Cymraeg, a *Sea pictures* (Elgar), gyda'r cyfansoddwr ei hun yn arwain y perfformiad.

Priododd (2), 6 Hydref 1951 yn Llanrwst â William John Hughes, Efailnewydd, un o'i chyfoedion, a g r a fu'n cyngherdda llawer gyda hi cyn iddi fynd i'r Academi Gerdd Frenhinol. Yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli, 1956, sefydlwyd ysgoloriaeth yn dwyn ei henw i gynorthwyo cantorion ieuanc Cymreig yn yr Academi Gerdd Frenhinol. Bu farw yn sydyn yn ei chartref, Melin Rhyd-hir, Efailnewydd, ger Pwllheli, 2 Ionawr 1960, a'i chladdu ym Mhenrhos, Pwllheli.

Awdur

Huw Williams, (1922 - 2002)

Ffynonellau

'A Springtime of song' (ei hunangofiant mewn teipysgrif, dyddiedig 24 Ionawr 1934, a oedd ym meddiant Mrs. W. O. Jones, Treffynnon, yn 1960)

The Liverpool Daily Post, 8 Hydref 1951 a 4 Ionawr 1960

Cerddoriaeth Cymru, cylchgrawn y Gymdeithas er hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru, 3, rhif 8 (1970), 35

gwybodaeth gan ei merch, Effie Isaura Osborne-Hughes, Pwllheli

Megan Lloyd Ellis, *Hyfrydlais Leila Megáne* (Llandysul 1979)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Leila Megane](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MSS 15281-15301: Leila Mégane manuscripts](#)

Archifau LIGC: [Leila Mégane and T. Osborne Roberts Papers and Correspondence](#)

VIAF: [25539862](#)

Wikidata: [Q6519893](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

